Gwell ysgolion
Gwell gwasanaethau
Gwell gwerth am arian

Maniffesto Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar gyfer etholiadau lleol 2012

Welsh Liberal Democrats
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Cynnwys

Cyflwyniad gan Kirsty Williams AC **2**

Ein gweledigaeth ar gyfer llywodraeth leol **4**
Ein hanes o lwyddiant **6**
Treth Cyngor 6
Ysgolion 8
Creu Swyddi 9
Adfywio 10
Iechyd a Gofal Cymdeithasol 11
Yr Amgylchedd 12
Tai 13
Diogelwch Cymunedol 14
Trafnidiaeth 15

Cyflwyniad gan Kirsty Williams AC

Annwyl Gyfaill

Mae'r etholiadau lleol ar y 3ydd o Fai yn cynnig y cyfle ichi wneud gwir wahaniaeth i'ch cymuned. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi dangos eu bod yn gallu arwain cynghorau lleol at well gwasanaethau cyhoeddus, gwell ysgolion a gwerth am arian. Ledled Cymru, mewn amrywiol gynghorau lleol, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi cyflawni gwasanaethau i hanner poblogaeth Cymru gyda llwyddiant enfawr.

Mewn amseroedd caled, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn rhoi pobl leol yn gyntaf. Dyna pam ein bod wedi gweithio i gadw treth cyngor yn isel. 'Rydym yn gwybod bod treth cyngor yn dreth annheg a bod teuluoedd yn yr amseroedd caled hyn yn ei chanfod hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yng Nghaerdydd a Wrecsam y mae'r ddau godiad isaf mewn treth cyngor yng Nghymru, ac eleni, mae gweinyddiaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn Abertawe wedi rhewi treth cyngor.

Mae'n blaenoriaeth fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru bob amser wedi bod i wneud yn sicr bod y plant mwyaf difreintiedig yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen a'i haeddu. Pan fo arian yn brin, mae'n rhaid ichi fod yn wirioneddol eglur yngl n â beth yw'ch blaenoriaethau. Mae cynghorau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi bod yn buddsoddi mewn ysgolion. 'Rydym wedi cynyddu gwariant ar ddisgyblion ac ysgolion mewn ardaloedd lle 'rydym yn rheoli.

Dyna pam 'rydym hefyd wedi sicrhau £32 miliwn i gymorth plant o gefndiroedd difreintiedig drwy'r Premiwm Disgyblion.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn rhoi pobl leol yn gyntaf. Mae gennym enw da am achub cam pobl leol ac am bwyso am fuddsoddi yn yr ardaloedd 'rydym yn eu cynrychioli. Mae'n hawdd iawn i wleidyddiaeth a gwleidyddion fynd yn anghysbell. Ond mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cadw mewn cysylltiad drwy gydol y flwyddyn. 'Rydym yn mynd yr un cam yna ymhellach i'r bobl yn ein cymuned.

Mae'r neges yn eglur. Fe fydd pleidleisio dros Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yn dod ag eiriolwyr lleol ichi fydd yn ymladd am gynghorau sy'n cael eu rheoli'n well, buddsoddiad mewn addysg, a chynghorau fydd yn ymgyrchu drosoch chi a'ch cymuned.

Mae'r maniffesto hwn yn rhoi cipolwg ar weledigaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar gyfer awdurdodau lleol, ac mae'n cynnwys enghreifftiau pendant o sut 'rydym wedi gwella cymunedau ledled Cymru.

Mae'n weledigaeth ar gyfer gwell gwasanaethau lleol, gwell ysgolion a gwell gwerth am arian. Mae pleidlais dros Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yn bleidlais dros hynny'n union.

Cofion cynnes,

Kirsty Williams,
Arweinydd, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Ein gweledigaeth ar gyfer llywodraeth leol

Mae Cymru nid yn unig yn genedl; mae'n genedl o gymunedau. Mae'r cymunedau hyn, boed yn wledig neu drefol, ymysg ein hasedau cryfaf fel gwlad. Ond nid yw pob cymuned yn wynebu'r un heriau ac nid oes arnynt angen yr un atebion. Dyna pam bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu mewn rhoi'r gallu i bob cyngor lleol wneud y penderfyniadau cywir dros eu hardal.

Mae gennym ni weledigaeth o ddemocratiaeth leol ffyniannus, lle mae llais pawb yn cael ei glywed ac nad yw grym yn cael ei gronni yn nwylo un blaid wleidyddol am flynyddoedd.

Fe fydd mwy o rymoedd i'ch cyngor lleol yn golygu mwy o offer i fynd i'r afael â'r materion mae'ch cymunedau'n eu hwynebu. Fe fydd mwy o ryddid yn caniatáu i arloesedd lleol flodeuo, ac fe fydd llai o reolaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru yn golygu y bydd anghenion lleol yn cael sylw - nid ond anghenion y Blaid Lafur ym Mae Caerdydd.

Mae gan gynghorwyr Democratiaid Rhyddfrydol Cymru **enw da am fod yn eiriolwyr cryfion dros eu cymuned.**

Maent yn gofalu ac yn malio am eu hardal, maent yn gweithio'n galed drwy gydol y flwyddyn ac maent yn achub cam pobl leol.

Mae gormod o gynghorwyr yn anghofio pam eu bod yn cael eu hethol ac maent yn dod yn llais biwrocratiaeth y cyngor yn y gymuned. **Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn parhau i fod yn llais y gymuned yn Neuadd y Sir.**

Gwell gwleidyddiaeth, sy'n rhoi pobl leol wrth y llyw

Mae ar Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru eisiau mwy o ryddid i gynghorau lleol.

Mae arnom eisiau cyflwyno un p er sengl o "gymhwysedd cyffredinol" i roi mwy o ddewis i gynghorau lleol ynghylch beth maent yn ei wneud; yn debyg i'r un mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi'i gyflawni yn Lloegr. Mae arnom eisiau lleihau nifer y cyllidau penodol a roddir i gynghorau, cyllidau mae'n rhaid eu gwario ar beth mae Llywodraeth Cymru'i eisiau, nid ar beth mae pobl leol yn ei farnu sydd er lles gorau'u cymuned. Yn hytrach, fe ddylid rhoi'r arian hwn i gynghorau lleol i'w wario ar beth maen' nhw yn ei benderfynu sy'n bwysig. Ni fydd hyn yn golygu llai o arian; yn hytrach, fe fydd yn golygu y gall cynghorau wario'u harian ar beth mae arnynt eisiau. Fe fyddem yn dechrau'r newidiadau hyn drwy gyflwyno Mesur Hawliau Cymunedol, yn gwarantu grymoedd newydd i gynghorau.

Ond mae angen i'r gwaith o ddiwygio llywodraeth leol fod yn fwy nag ond rhoi grymoedd ychwanegol i neuadd y dref. Mae'n rhaid hefyd cryfhau democratiaeth leol. Mae ar gynghorau angen adlewyrchu'r gwahanol leisiau gwleidyddol sy'n bodoli ym mhob cymuned. Mae angen i ddemocratiaeth leol gael ei hadfer a'i hadnewyddu mewn rhai cynghorau yng Nghymru, yn enwedig y rhai hynny sydd wedi'u rheoli gan Lafur am ddegawdau.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi bod yn ymgyrchu am newidiadau i'r ffordd mae cynghorau lleol yn cael eu hethol ers cenedlaethau. Mae arnom eisiau clywed pob barn, ac 'rydym yn credu bod pob cymuned yn haeddu gwir atebolrwydd democrataidd. Mae arnom eisiau gweld cyfundrefn etholiadol newydd, y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, fel bod pob un bleidlais yn cyfri', a bod y cyngor lleol yn cael ei ethol yn deg - fe fydd hyn yn golygu diwedd ar wleidyddiaeth un blaid anghynrychioliadol mewn llawer o rannau o Gymru. 'Rydym eisoes wedi cyflawni hyn yn yr Alban, ac mae gwleidyddiaeth leol wedi'i ail-fywiogi o ganlyniad.

Mae arnom hefyd angen glanhau'r ffordd mae'n cynghorau yn ymwneud â gwleidyddiaeth. Fe fydd etholiadau tecach yn cyfrannu at hyn drwy wneud yn sicr bod llawer mwy o seddau yn cael eu hymladd. Mae arnom hefyd eisiau adolygiad annibynnol o'r ffordd mae cynghorau yn rheoli'u materion eu hunain. Y ffordd honno, fe allwn hyrwyddo arferion agored a thryloyw'r cynghorau gorau ledled Cymru.

Dyma'n gweledigaeth ni ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Fe fydd gan eich llywodraeth leol fwy o gyfle i newid eich cymuned. Fe fydd eich cyngor yn cael ei ethol yn deg. Ac fe ymddiriedir yn eich cyngor i fynd ati i wneud y gwaith.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn arbed arian ichi

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gwybod pa mor galed yw pethau yn awr, sef y rheswm pam **ein bod ni'n darparu gwir gymorth.**

Cynghorau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru sydd wedi cael y **codiadau isaf mewn cyfraddau treth cyngor** o'r holl gynghorau yng Nghymru.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi profi y gallwn fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus a chadw codiadau mewn treth cyngor yn isel.

Mae treth cyngor yn annheg ac mae o'n brifo'r tlotaf mewn cymdeithas fwyaf. Dyna pam ein bod wedi gweithio i gadw treth cyngor yn isel. Ond 'rydym yn deall bod ar bobl leol eisiau gwasanaethau o ansawdd uchel, hefyd. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi gwella gwasanaethau drwy wneud y cynghorau 'rydym yn eu rheoli yn fwy effeithlon a thrwy ddiwygio'r gwasanaethau 'rydym yn eu darparu. Yn rhy aml, mae pleidiau eraill ond yn canfod arian drwy godi trethi cyngor annheg.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi profi'n bod ni'n gallu rheoli cyllidau cynghorau lleol yn dda. Mae Swyddfa Archwilio annibynnol Cymru wedi dweud bod gan Gyngor Caerdydd, dan arweiniad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, "arweinyddiaeth bendant a chadarn o fewn y Cyngor, ac mae cyllidau'n cael eu rheoli'n effeithiol." Yn yr un modd, mae gan Gyngor Wrecsam sydd dan arweiniad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, "reolaeth ariannol gref a datblygedig, a hanes o beidio â gorwario ar ei gyllideb flynyddol."

Mae rheoli cyllidau yn dda yn cyflawni gwell gwasanaethau. Er enghraifft, fe wnaeth Cyngor Caerdydd fuddsoddi mewn giatiau alïau i ddarbwyllo pobl rhag tipio anghyfreithlon. Yn hytrach na gwario £1 filiwn bob blwyddyn yn glanhau'r llanastr hwn, 'rydym bellach wedi haneru'r gost hon. Yng Ngheredigion, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi sicrhau bod y cyngor yn arbed mwy na £5 miliwn ar adeiladau newydd, pan wariodd Llywodraeth Cymru dan arweiniad Llafur fwy ar adeilad tebyg yn yr un ardal. Ac mae ymgyrch gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru ym Merthyr Tudful wedi gweld y cyngor yn arbed miloedd o bunnau drwy dorri ar nifer y digwyddiadau mawreddog i Gynghorwyr eu mynychu.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae awdurdodau lleol wedi dechrau canfod arbedion a gwella gwasanaethau cyhoeddus drwy gydweithio mwy, ledled ystod ehangach o feysydd. Pan fo awdurdodau lleol yn dewis gwneud hyn, fe allant rannu gwybodaeth ac arbed arian.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cymryd ymagweddiad gorchymyn-a-rheoli tuag at y prosiect hwn, gan orchymyn cynghorau i gyfuno gwasanaethau fel maen' nhw yn cyfarwyddo. Mae arnom eisiau gweld cydweithredu dan arweiniad cynghorau, ac yn amodol ar graffu lleol, democrataidd.

Yn San Steffan, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi cyflawni cynnydd enfawr yn y lwfans personol, gan olygu bod y trethdalwyr wedi arbed £330 y flwyddyn – gyda £220 arall yn dyladwy y flwyddyn nesaf.

Mae taerineb Democratiaid Rhyddfrydol Cymru dros werth am arian wedi golygu ein bod yn gallu ymffrostio yn y codiadau isaf mewn treth cyngor o unrhyw blaid yng Nghymru dros y chwe blynedd diwethaf. Mae Caerdydd a Wrecsam wedi gweld y ddau godiad isaf mewn treth cyngor yng Nghymru, ac mae Abertawe wedi rhewi treth cyngor eleni.

Fe fydd ein dull ni o weithredu yn sicrhau'r gwerth hwn am arian.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cyflawni gwell ysgolion

Mae'n blaenoriaeth ni fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru bob amser wedi bod i wneud yn sicr bod y plant mwyaf difreintiedig yn cael y cymorth mae arnynt ei angen i lwyddo.

Dros y flwyddyn nesaf, fe fydd **£32 miliwn** yn dod â budd i blant o gefndiroedd difreintiedig. **Fe fydd bron pob ysgol ledled Cymru yn elwa.**

'Rydym yn credu mai buddsoddiad mewn addysg yw'r ffordd orau i fynd i'r afael â thlodi ac i gryfhau'n heconomi. Ond fe gaiff plant yn Lloegr fwy na £600 bob blwyddyn wedi'i wario ar eu haddysg na phlant yng Nghymru. Dyna pam ein bod ni wedi addo cau'r bwlch cyllido hwn rhwng Cymru a Lloegr, gan ddechrau gyda'r disgyblion tlotaf.

Mae Aelodau Cynulliad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi defnyddio'u dylanwad i fynnu bod premiwm disgyblion yn cael ei sefydlu yng Nghymru, fel y bydd ysgolion yn gallu lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a chau'r bwlch gwariant. Fe wnaethom wneud yn sicr bod addysg yn cael ei thrin gyda'r flaenoriaeth y mae'n ei haeddu yn ystod trafodaethau'r gyllideb.

Fe wnaethom sicrhau grant o £32 miliwn i ganolbwyntio ar wella cyrhaeddiad y disgyblion tlotaf; fe fydd ysgolion yn awr yn derbyn £450 am bob un plentyn sy'n derbyn prydau bwyd ysgol am ddim.

Fe fydd y premiwm disgyblion yn dechrau torri'r cysylltiad, ysgol wrth ysgol, cymuned wrth gymuned, rhwng tlodi a chyrhaeddiad, sydd wedi llesteirio'n cyfundrefn addysg yn rhy hir.

Mae cynghorau dan arweiniad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi buddsoddi mewn ysgolion yn eu hardaloedd. O dan Lafur, gan Gaerdydd oedd yr ysgolion ail-waethaf o ran cael eu hariannu yng Nghymru. Yn awr, dan arweiniad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, mae ganddynt yr ail-orau. Ym Mhowys, 'rydym wedi sicrhau bob pob un disgybl 11-16 mlwydd oed yn cael £150 yn ychwanegol dros eu hysgol. Yn Abertawe, 'rydym wedi buddsoddi £1.2 miliwn yn ychwanegol i wella llythrennedd a rhifedd. Ac yn Wrecsam, fe wnaethom ailwampio'r ffordd 'roedd disgyblion yn cael eu cefnogi, gan bron i ddyblu nifer y disgyblion sy'n cael pum TGAU ers 2004.

Fe fydd ein dull ni o weithredu yn helpu i wella safonau mewn ysgolion.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn creu swyddi

Mewn amseroedd economaidd anodd, mae ar bob rhan o economi Cymru angen bod yn tanio i bob cyfeiriad. Yn anffodus, nid oes gan awdurdodau lleol yr holl rymoedd mae arnynt angen er mwyn ysgogi'r economi yn eu hardaloedd. Mae Llywodraeth Cymru yn dal gafael ar ormod o'r grym hwnnw iddi'i hun, ac mae hi'n rhy anghysbell i ddarparu twf economaidd. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi dangos y gall cynghorau lleol ddenu buddsoddiad i'r economi lleol a chymorth busnesau bach.

Fe fyddem yn rhoi cymhellion i gynghorau lleol i ehangu'u heconomïau ac yn annog busnesau lleol drwy ganiatáu i gynghorau gadw rhywfaint o'r ardrethi busnes ychwanegol maent yn eu derbyn. 'Rydym hefyd yn credu ei bod hi'n haws i gynghorau ariannu datblygiadau newydd drwy ad-dalu benthyciadau o'r ardrethi busnes ychwanegol maent yn eu derbyn.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi bod yn buddsoddi yn economi Cymru. Yng Nghasnewydd, mae gwaith wedi dechrau ar ailddatblygiad mawr ar ganol y ddinas er mwyn denu cwmnïau ag enwau mawr i'r ddinas; maent eisoes wedi denu un cwmni mawr, gan greu hyd at 1,200 o swyddi. Yn Abertawe, 'rydym wedi cyflawni cynnydd ar ddatblygiad yr SA1 ac wedi datblygu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer gwella'r economi, fydd yn para tan 2020.

'Rydym hefyd wedi bod yn cefnogi busnesau bach. Yng Nghaerdydd, mae Cronfa Cyfalaf Caerdydd wedi bod yn cynnig benthyciadau i fusnesau bach ac arloesol newydd. Mae hyn wedi bod yn rhan o adfywio ehangach ar Gaerdydd oedd yn cynnwys adfywio canol y ddinas yn llwyr drwy adeiladu canolfan adwerthu newydd, denu John Lewis i'r ddinas a buddsoddi mewn llyfrgell newydd. Fe wnaeth y rhain helpu i adnewyddu economi Caerdydd a chreu swyddi yn y ddinas.

Fe fyddai'n dull ni o weithredu yn cyflawni o ran creu swyddi ledled Cymru.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn adfywio cymunedau

Mae llywodraethau a chynghorau olynol Llafur wedi bod yn siomiant i Gymru, gan fethu ag annog adfywiad. Nid ydynt wedi adeiladu'r cymunedau cryfion, ffyniannus mae ar Gymru'u hangen. Mae arnom eisiau gweld pob cymuned, gwledig neu drefol, yn elwa o dwf economaidd a gwasanaethau lleol cryfion.

Mae ar gynghorau lleol angen bod ar ben blaen ymdrechion adfywio. Fe allant fanteisio orau ar wybodaeth leol i ailadeiladu cymunedau mewn ffordd sy'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol.

Mae arnom eisiau dadebru cymunedau ledled Cymru a darparu gwasanaethau, amwynderau a gwaith lleol o ansawdd i bawb.

Mae'r stryd fawr a chanol trefi cryfion a llewyrchus gyda siopau annibynnol, bychain, yn helpu i sicrhau cymunedau sy'n economaidd fywiog. Ledled Cymru, 'rydym wedi cefnogi buddsoddi mewn canol trefi; mewn dinasoedd mawrion, fel Casnewydd lle mae'r cyngor was dadlennu cynlluniau i ailddatblygu canol y ddinas, ac yng Nghaerdydd, gyda chanolfan adwerthu newydd ac ardal fusnes arfaethedig. Ond 'rydym hefyd wedi cefnogi trefi llai sy'n canfod y dirwasgiad economaidd yn anodd drwy wella golwg y stryd fawr yn y gymdogaeth ac yn y gymuned, yn cynnwys adfywio canolfannau siopa ardal mewn dinasoedd mawrion a chanol trefi mewn ardaloedd cefn gwlad.

'Rydym wedi buddsoddi mewn amwynderau lleol er mwyn sicrhau bod cymunedau yn ffynnu. Yn Abertawe, fe wnaethom ailagor y ganolfan hamdden ar ôl iddi gael ei chau gan Lafur. Yng Nghaerdydd, 'rydym wedi buddsoddi mewn llyfrgelloedd, gan arbed ac adnewyddu llawer oedd dan fygythiad pan oedd Llafur yn rheoli'r cyngor, yn ogystal ag adeiladu llyfrgell ganolog arloesol yng nghanol y ddinas. 'Rydym hefyd wedi cynnal gwaith adnewyddu mawr ar lyfrgelloedd yn Aberystwyth.

Mae'n hanes blaenorol o fuddsoddi mewn adeiladau ysgol, tai newydd a gwelliannau i ffyrdd lleol wedi helpu i adfywio cymunedau ledled Cymru.

'Rydym hefyd yn cynnig Mesur Hawliau Cymunedol, fyddai'n rhoi grymoedd newydd i gynghorau lleol i ddiogelu treftadaeth leol fel y gellir ei defnyddio i sbarduno adfywio lleol. Er enghraifft, fe allai adeiladau lleol pwysig dderbyn diogelwch ychwanegol rhag datblygiad, ac fe ellir diogelu mannau gwyrdd rhag datblygiadau.

Fe fydd ein dull ni o weithredu yn golygu buddsoddi mewn cymunedau lleol.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cyflawni cymunedau iachach

Gofal cymdeithasol yw un o'r cyfrifoldebau pwysicaf sydd gan gynghorau. Mae gwasanaethau gofal yn cael eu darparu i'r rhai mwyaf diymgeledd yn ein cymdeithas, a'n cred ni yw y dylwn ofalu am y sawl mae arnynt angen cefnogaeth. I wneud hyn, mae arnom angen dod â'n cyfundrefn gofal cymdeithasol i mewn i'r oes fodern. Mae'n rhaid i ofal cymdeithasol sicrhau y gofalir am bobl mewn ffyrdd sy'n briodol i'w hanghenion drwy wneud y gorau o'u hannibyniaeth a chynnal eu hurddas yn eu henaint.

Fe wnawn roi mwy o ddewis ichi dros y gofal 'rydych yn ei dderbyn fel ei fod yn cydweddu â'ch anghenion. Mae arnom eisiau gweld cynghorau lleol a'r GIG yn gwneud mwy o ddefnydd o gyllidebau personol ar gyfer gwasanaethau gofal – datblygu cynllun cymorth wedi'i bersonoli y gall unigolion ddylanwadu arno a'i reoli eu hunain i sicrhau'i fod yn diwallu'u hanghenion.

Fe fydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cysylltu'r ddarpariaeth ddatgymalog o ofal cymdeithasol ac iechyd. Mae arnom eisiau gwella cydweithredu rhwng y GIG a gwasanaethau gofal, gan ddechrau drwy ymestyn y defnydd o gyd-gyllidebu a chydweithio rhwng y GIG a'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn lleihau trosglwyddiadau gofal gohiriedig. Yn Abertawe, 'rydym wedi buddsoddi arian ychwanegol mewn gwasanaethau cymdeithasol ac wedi helpu i ddod â llwyddiant i'r adran.

Mae hyn yn cyd-fynd â'r gwaith 'rydym wedi bod yn ei wneud lle 'rydym yn rheoli cynghorau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn ddibynadwy, ac yn rhoi rhyddid i bobl dros y gofal maent yn ei dderbyn. Ym Mhowys, fe roesom fynediad am ddim i ganolfannau hamdden i'r sawl a anafwyd mewn rhyfel. Yng Nghonwy, 'rydym wedi datblygu cerdyn i helpu gofalwyr i dderbyn gwasanaethau'r cyngor ar gost ostyngol – eu gwobrwyo nhw am y gwaith maent yn ei wneud.

Mae cynghorwyr Democratiaid Rhyddfrydol Cymru hefyd wedi ymgyrchu yn erbyn penderfyniadau annoeth i gau ysbytai lle nad oes yna reswm clinigol dros y newid. 'Rydym wedi gorymdeithio yn erbyn unrhyw israddio posibl ar yr ysbyty ym Mronglais, ac wedi gwrthwynebu cau dros dro Unedau Mân Anafiadau ledled Cymru. 'Rydym yn credu bod gwell gofal yn cael ei ddarparu mewn cyfleusterau lleol ac y gall eu cau nhw waethygu'r ddarpariaeth o ofal a chynyddu costau.

Fe fydd ein dull ni o weithredu yn cefnogi byw'n iachach.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn diogelu'r amgylchedd.

Newid yn yr hinsawdd yw'r her fwyaf sy'n wynebu Cymru am yr ychydig genedlaethau nesaf, ac mae'n rhaid i bob rhan o Gymru wneud ei rhan i leihau'n hôl troed carbon. Fodd bynnag, mae anghenion lleol gwahanol rannau o Gymru yn amrywio, ac mae'r amgylchedd lleol yn wahanol ym mhobman. Felly, mae'n rhaid rhoi'r cyfle i gynghorau addasu i'w lleoliadau nhw'u hunain.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu mai ail-ddefnyddio'n gwastraff yw un o'r ffyrdd gorau o helpu'r amgylchedd. Mae o yn aml yn rhatach ac yn lanach ail-ddefnyddio'r deunyddiau hyn yn hytrach na chreu rhai newydd o'r dechrau. Mae o'n ein stopio ni rhag gorfod anfon ein gwastraff i safle tirlenwi, gan helpu'r amgylchedd a gostwng costau Trethi Tirlenwi cynghorau. Fe ddylai fod gan bob cartref yng Nghymru fodd o gael at ailgylchu effeithiol, am ddim.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi arwain y ffordd mewn codi cyfraddau ailgylchu mewn ardaloedd maent yn eu rheoli. Maent wedi codi ym mhobman lle 'rydym yn arwain y cyngor neu 'rydym yn gyfrifol am y portffolio ailgylchu. Pan oedd Llafur yn rheoli Cyngor Caerdydd ddiwethaf yn 2004, 'roedd yn rhaid i breswylwyr dalu am fagiau ailgylchu. Yn awr, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi cyflwyno ailgylchu wythnosol am ddim, ac mae cyfraddau ailgylchu wedi codi i 50%. Yn Wrecsam, mae cyfraddau ailgylchu wedi pedryblu o dan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru. Yng Nghonwy, fe benodwyd un o gynghorwyr y Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i gabinet y cyngor, ac fe wnaeth ei waith ymroddedig ynghylch yr amgylchedd sicrhau bod targed y llywodraeth o 40% wedi'i gyrraedd ddwy flynedd yn gynnar, a bod yna system ailgylchu newydd, graffach sy'n golygu y gellir casglu wyth math o ddeunyddiau ailgylchu gyda'i gilydd.

Mae arnom hefyd angen mynd i'r afael â'n hallyriadau carbon. Mae yna ddwy ffordd o wneud hyn; y ffordd gyntaf yw drwy ddefnyddio ynni'n gallach, gan leihau gwastraff. Yr ail ffordd yw drwy ddefnyddio mwy o ynni glân, adnewyddadwy.

Ledled Cymru, mae cynghorau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi bod yn hyrwyddo ynni adnewyddadwy. Mae cyngor Wrecsam wedi gosod paneli haul ar dai cymdeithasol a defnyddio'r elw i leihau biliau tanwydd holl denantiaid tai cymdeithasol yn yr ardal.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol wrthi yn y gwaith o sicrhau arian ychwanegol ar gyfer rhaglenni tlodi tanwydd fydd yn helpu'r bobl dlotaf yng Nghymru i arbed ynni, i gadw'n gynnes ac i ostwng eu biliau tanwydd.

Fe fydd ein dull ni o weithredu yn cyfrannu at dorri allyriadau carbon.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn creu mwy o gartrefi fforddiadwy

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu bod gan bawb yr hawl i dy sy'n ddigonol ar gyfer eu hiechyd a'u lles eu hunain a'u teulu. Fe wnawn ond gwneud hyn yn realiti os gwnawn gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Mae cynghorau dan arweiniad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi sicrhau bod mwy o gartrefi fforddiadwy ar gael ym mhob cymuned.

Mae gan bob ardal wahanol anghenion tai. Mae arnom eisiau rhoi mwy o ryddid i gynghorau lleol gyflawni fel eu bod yn gallu adeiladu cartrefi yn unol ag anghenion lleol a gyda chefnogaeth leol. Mae anghenion cymunedau gwledig yn wahanol iawn i gymunedau trefol.

Mae arnom eisiau i gynghorau lleol gael mwy o rymoedd i adfer cartrefi sydd wedi dadfeilio. Mae arnom eisiau Strategaeth Cartrefi Gwag Cymru gyfan i adfer hen gartrefi i gael eu defnyddio eto. Fe fydd hyn yn cynnwys newid y rheolau fel ei bod hi cyn hawsed adnewyddu hen dai ag yw hi i adeiladu rhai newydd, a symleiddio'r broses lle y gall cynghorau lleol brynu cartrefi gweigion. Mae arnom eisiau i gynghorau gael mwy o rymoedd i fynnu bod cartrefi fforddiadwy'n cael eu hadeiladu fel rhan o ddatblygiadau tai newydd – gan adeiladu ar eu galluoedd presennol. Yng Nghaerdydd, 'rydym wedi cyhoeddi cynlluniau i adeiladu 350 o dai cyngor newydd; gyda mwy o rymoedd, fe allai'r nifer hwn fod yn uwch.

Mae'n gynyddol anodd i bobl ifanc fynd ar yr ysgol dai, gan fod yr argyfwng credyd wedi'i gwneud hi'n anodd cael morgais heb roi blaendal.

'Rydym eisoes wedi cyflawni neu gefnogi Cynlluniau Gwarant Morgeisi i helpu pobl ifanc i sicrhau blaendaliadau ar gartref cyntaf yng Nghaerdydd, Conwy, Ceredigion a Phowys. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol yn gwthio am gynllun Cymru gyfan i helpu pobl ifanc i dalu blaendal ar eu tai.

Mae ar hawliau tai angen bod ar gael i bawb, ni waeth sut fath o gartref maent yn byw ynddo. Dyna pam ein bod wedi cynnig deddf yn y Cynulliad Cenedlaethol i wella hawliau pobl sy'n byw mewn Cartrefi mewn Parciau. 'Rydym hefyd wedi bod yn gweithio i gynyddu ansawdd tai myfyrwyr fel bod cartrefi myfyrwyr yn ddiogel a bod y mannau o amgylch yn fwy dymunol.

Fe fydd ein dull ni o weithredu yn creu mwy o gartrefi fforddiadwy.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gwneud cymunedau yn ddiogelach

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu mewn rhyddid rhag troseddau a byw mewn ofn troseddau. Mae gan gynghorau lleol ran hanfodol mewn gwneud ein cymunedau yn ddiogelach a gweithio gyda'r heddlu i atal ymddygiad troseddol. Mae ar bobl leol angen bod yn gysylltiedig fel bod blaenoriaethau lleol yn cael eu hystyried. Mae'n rhaid hefyd gallu ymddiried yng nghynghorau lleol i ddefnyddio'r offer sydd ganddynt i wneud eu cymunedau yn ddiogelach.

'Rydym yn cefnogi rôl barhaus i gyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Fe hoffem weld mwy o gyfle i bobl ifanc ddod yn gysylltiedig â'r broses, hefyd. Mae mwy o ryddid i gymunedau ddilyn eu blaenoriaethau'u hunain yn golygu y gall yr heddlu a'r cyngor ganolbwyntio ar y materion sy'n pryderu pobl leol.

'Rydym yn falch bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi rhoi ar waith fesul cam y rhif "101" ledled y DU, sy'n rhoi dewis arall i breswylwyr, yn lle ffonio 999, gan ryddhau pwysau ar y gwasanaethau brys a chaniatáu i bobl godi pryderon cymunedol. Fe wnaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru gadw hyn i fynd yng Nghaerdydd pan wnaeth Llafur atal y cyllid ar ei gyfer.

Ledled Cymru, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi bod yn gysylltiedig â gwneud cymunedau yn ddiogelach ac mewn lleihau troseddau. Yn Wrecsam, fe wnaethom weithio gyda'r heddlu i fuddsoddi mewn 47 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) yn rhagor ledled y fwrdeistref, ac o ganlyniad, mae cyfraddau troseddu wedi gostwng. Yng Nghaerdydd, 'rydym wedi buddsoddi'n hael mewn gosod giatiau alïau a chyflwyno gwasanaeth gwaredu graffiti am ddim. Ledled Cymru, fel ym Mhowys, mae'n cynghorwyr wedi cefnogi terfynau cyflymder 20 milltir yr awr y tu allan i ysgolion, i helpu i wella diogelwch ar y ffyrdd.

Fe fydd ein dull ni o weithredu yn cefnogi cymunedau diogelach.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi cysylltiadau trafnidiaeth lleol

Mae trafnidiaeth yn hanfodol i ddatblygiad economaidd ond hefyd ar gyfer cyfiawnder cymdeithasol. Dyna pam bod ar Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru eisiau cefnogi awdurdodau lleol i wella'u cysylltiadau trafnidiaeth. Mae arnom eisiau dull cydlynol o weithredu tuag at bolisi trafnidiaeth drwy leihau nifer yr asiantaethau sy'n gysylltiedig â chreu cysylltiadau trafnidiaeth drwy sefydlu awdurdod trafnidiaeth rhanbarthol, dan arweiniad dau neu dri awdurdod lleol.

Fe fyddem yn annog gwell gwasanaethau bysiau mewn ardaloedd gwledig a thlotach drwy ail-reoleiddio bysiau, fel y gall awdurdodau lleol sicrhau bod eu holl gymunedau yn cael eu gwasanaethu.

Mae Llywodraeth Cymru dan reolaeth Llafur yn ei gwneud hi'n anos i bobl ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Yn ddiweddar, fe wnaethant gyhoeddi 25% o ostyngiad i'r grant sy'n helpu cwmnïau bysiau dalu costau tanwydd, ac yn awr fe fydd yn rhaid i brisiau tocynnau teithio godi. Ar yr un pryd, maent yn gwario mwy nag £1 filiwn bob blwyddyn yn cymorthdalu teithiau awyr o'r naill ran o Gymru i'r llall. Fe fyddai'n amgenach gennym weld yr arian hwn yn cael ei wario ar fathau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae gan gynghorau ran hanfodol mewn sicrhau bod y rhwydweithiau ffyrdd ledled Cymru yn addas ar gyfer yr oes fodern.

Ledled Cymru, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi bod yn ei gwneud hi'n haws i fynd ar draws Cymru. Yng Nghasnewydd, fe wnaethom fuddsoddi £21 miliwn i drwsio ffyrdd lleol sy'n mynd â'u pen iddynt yn y dref, amser maith cyn y gwnaeth Llywodraeth Cymru ddeffro i'r broblem. 'Roedd hyn yn golygu buddsoddiad untro i ddod â'r ffyrdd i safon, ac wedyn buddsoddi parhaus er mwyn sicrhau nad ydynt byth yn mynd cynddrwg eto. Mae hyn wedi bod mor llwyddiannus fel ein bod yn bwriadu rhoi tro arno eto yng Nghaerdydd, hefyd.

Fe fydd ein dull ni o weithredu yn sicrhau gwell cysylltiadau trafnidiaeth.

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Rhyddid Canolog,
Cwrt Blake,
Ffordd Schooner,
Bae Cardiff.
CF10 4DW.

Ffon: (029) 2031 3400
Ebost: enquiries@welshlibdems.org.uk
Web: http://www.demrhyddcymru.org.uk

Cysylltwch â ni, ar
(029) 2031 3400
neu
enquiries@welshlibdems.org.uk
os hoffech gael y maniffesto hon
ar ffurf wahanol.

www.demrhyddcymru.org.uk

Argraffwyd, cyhoeddwyd a hyrwyddwyd gan R. Thomas ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru,
y ddau o Rhyddid Canolog, Cwrt Blake, Caerdydd. CF10 4DW.